**CYPE(6)-08-23 - Papur i'w nodi 4**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

28 Chwefror 2023

**Trais, cam-drin ac aflonyddu rhywiol tuag at staff ysgol**

Annwyl Jeremy,

Yn ystod ein hymchwiliad i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr, clywsom dystiolaeth anecdotaidd bod rhai staff ysgol yn cael eu haflonyddu'n rhywiol gan ddisgyblion ysgol. Fodd bynnag, nid oeddem yn glir ynghylch maint a natur yr aflonyddu hwnnw, felly ar 26 Medi gwnaethom ysgrifennu at wyth undeb llafur i ofyn am eu barn ar gyffredinrwydd aflonyddu rhywiol yn erbyn staff ysgol gan ddisgyblion ysgol. Cafwyd ymateb gan dri: UNSAIN Cymru, NEU Cymru, a NASUWT Cymru.

Mae'r ymatebion a gawsom yn nodi bod trais, camdriniaeth ac aflonyddu yn fater o bwys i lawer o staff ysgol. Felly, gwnaethom ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 14 Rhagfyr i ofyn am ei barn am y pryderon a godwyd gan yr undebau llafur.

Atebodd CLlLC ein llythyr ar 6 Ionawr. Yn y llythyr, mae'n dweud:

- Yn gyffredinol mae awdurdodau lleol wedi gweld cynnydd yn nifer y gwaharddiadau a gwaharddiadau parhaol dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Mae cyfran fawr o'r rhain wedi bod mewn perthynas ag achosion o ymddygiad geiriol a chorfforol ymosodol tuag at staff gan blant.

- Mae tensiynau gan rieni tuag at ysgolion mewn perthynas ag addysg eu plant yn ymddangos yn fwy amlwg o'i chymharu â materion cyn y pandemig.

- Canfyddir bod adrodd ar ddigwyddiadau wedi cynyddu, ond gall timau rheoli ysgolion wneud mwy i wella lefelau adrodd a sicrhau bod cymorth wedi'i dargedu yn cael ei gynnig i staff.

Roedd llythyr CLlLC yn peri pryder ynddo'i hun. Ond cawsom ymateb pellach wedyn gan UNSAIN Cymru dyddiedig 9 Chwefror yn dadlau y gallai canfyddiadau CLlLC fod, mewn gwirionedd, yn amcangyfrif rhy isel o faint y broblem. Cynhaliodd UNSAIN arolwg o'i aelodau er mwyn llywio eu hymateb i'n llythyr dyddiedig 26 Medi. Maent yn dadlau nad yw'r data o'r arolwg hwnnw'n cyfateb i'r wybodaeth gan awdurdodau lleol a nodir yn llythyr CLlLC. Mae UNSAIN yn awgrymu y gallai rhai penaethiaid fod yn portreadu digwyddiadau difrifol fel 'rhan o'r swydd' ac yn peidio ag annog staff i'w cofnodi. Maent yn nodi bod 41 y cant o'r rhai a ymatebodd i'w harolwg a oedd wedi bod yn rhan o ddigwyddiad yn teimlo nad ydynt wedi cael cefnogaeth ddigonol gan eu hysgolion.

Rydym yn poeni ynghylch y dystiolaeth a gawsom hyd yma. Rydym felly am gael eich barn am y pwyntiau a ganlyn:

i. Maint a natur unrhyw drais, camdriniaeth ac aflonyddu tuag at staff ysgolion (sy'n golygu unrhyw aelod o staff sy'n gweithio ar ystâd ysgol, a gyflogir gan yr ysgol neu fel arall, neu sy'n gweithio ar ran yr ysgol mewn unrhyw leoliad arall).

ii. A oes unrhyw grwpiau o staff mewn perygl arbennig, a pham.


iii. Digonolrwydd ymatebion timau arwain ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol (lle bo'n berthnasol) i:

    - amddiffyn staff rhag trais, camdriniaeth ac aflonyddu yn y lle cyntaf;
    - staff cymorth sydd wedi dioddef trais, camdriniaeth ac aflonyddu;
    - cofnodi digwyddiadau; a
    - holi data i nodi tueddiadau a phatrymau, ac yna dylunio a gweithredu ymyriadau yn unol â hynny.

iv. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, os o gwbl, i gefnogi timau arwain ysgolion a'r gweithlu ysgolion i fynd i'r afael â thrais, cam-drin ac aflonyddu tuag at staff ysgol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 14 Ebrill fan bellaf. Fel bob amser, os oes gennych unrhyw bryderon o ran y dyddiad hwn, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.